

Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Nos Lun, 20ed Ionawr 2025 / Monday, 20th January 2025

Festri Tabernacle Festry, Pencader

7.30 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, V. Davies, A. Davies, R. Thomas, D. Davies, J. Jones, W. Cole, Anita Evans (Clerc/Clerk).

Ymddiheuriadau / Apologies: A. James, D. Griffiths, H. Lewis, Cyngorydd Sir/County Councillor L. Evans
Absennol/Absent: G. Jones

<p>1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau ac absenoldeb. Llongyfarchwyd W. Cole ar enedigaeth ei ail blentyn.</p>	<p>1. Welcome: Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted. W. Cole was congratulated on the birth of his second child.</p>
<p>2. Datgan diddordeb: neb</p>	<p>2. Declaration of interest: none</p>
<p>3. Adroddiad yr Heddlu – Nid oedd SCCH Anwen Davies (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) yn bresennol. Mae unigolyn sy'n byw yn New Inn yn peri gofid drwy ymddygiad rhyfedd; mae hyn yn effeithio trigolion New Inn a gyrrwyr cerbydau ar y ffordd fawr o New Inn i Lanllwni. Mae nifer o yrrwyr wedi anfon cwynion ei fod allan ar y ffordd fawr, a'i bod yn anodd i'w weld. Nodwyd pryderon hefyd ynglyn â chyflymder traffig o ar Heol Pencader ym Mhontweli, gyda llawer o foduron yn goddiwedd idd yno. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Heddlu ynglyn â hyn.</p>	<p>3. Report from Police - PCSO Anwen Davies was not present. Concerns were raised regarding the worrying behaviour of an individual living in New Inn who is causing problems whilst walking on the highway between New Inn and Lanllwni, also insulting individuals. Several drivers have contacted the Council, stating that the person concerned is walking in the middle of the road and they have narrowly missed a collision. Concerns were also raised regarding the speed of traffic on Pencader Road in Pontwelly. Several instances of overtaking have been reported. Both concerns will be reported to the PCSO.</p>
<p>4. Cofnodion Mis Tachwedd (18.11.2024) - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan A. Davies eiliwyd gan R.Thomas. (ii) Derbyniwyd Cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid 15.01.2025 Cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan A. Davies.</p>	<p>4. Minutes of November Meeting (18.11.2024) – accepted as a true record. Proposed by A. Davies, seconded by R. Thomas. (ii) Minutes of Finance Sub-Committee 15.01.2025 were accepted. Proposed by D. Davies, seconded by A. Davies</p>
<p>5. Materion yn Codi: (i) <u>Cynqor Sir Gâr:</u> Adran Briffyrdd - dim diweddariad. (ii) <u>Cyfleusterau Pencader:</u> mae'r Cyngor Sir wedi cwblhau'r gwaith tu fewn a thu allan; rydyn yn dal i aros am y les oddi wrth y cyfreithiwr. (iii) <u>Mynwentydd y Plwyf:</u> Pencader - mae'r gweithwyr wedi cwblhau'r gwaith ar y toiledau; bydd y Clerc yn cysylltu â'r rheolwr i ddweud fod angen sylw ar glicied drws toiledau'r dynion. Mynwent Alltwalis: mae'r Cyngor wedi cytuno i H. Jones ail-godi'r ffens yn y cefn yn dilyn difrod gan y gwynt. (iv) <u>Diffibrilwyr:</u> Mae Adrian Munday wedi ail-osod batri'r diffibrilydd sydd y tu allan i Filfeddygon Tysul.</p>	<p>5. Matters Arising: (i) <u>Carmarthenshire County Council:</u> Highways Department – no updates. (ii) <u>Pencader Public Toilets:</u> the internal repairs have been completed by the County Council and the path outside has been cleared. We await receipt of the lease from our solicitor. (iii) <u>Parish Cemeteries:</u> Pencader - the work on the toilets has been completed. Haydn Jones has drawn our attention to the latch on the male toilet door - it needs adjusting. Alltwalis Cemetery – Council agreed for H. Jones to repair / replace the fence at the rear following storm damage. (iv) <u>Defibrillators</u> – A. Munday has replaced the battery in the defibrillator outside Tysul Vets.</p>

<p>Adroddodd R. Thomas bod dampwrwydd tu fewn i gabinet y diffibrilydd sydd wedi ei leoli yn Garej Windy Corner.</p> <p>(v) <u>Data wrth qefn</u>: disgwylir am gyngor.</p> <p>(vi) <u>Hysbysfyrdau</u>: bydd K. Lewis yn atgyweirio'r rhai sydd angen sylw ar ôl gosod stand i ddiffibrilydd Dolgran. Nododd y Clerc bod cyflwr y diffibrilydd sydd wedi ei leoli ar dalcen siop sgwâr Pencader wedi dirywio.</p> <p>(vii) <u>Elusen Angor</u>: cadarnhawyd byddwn yn gwahodd swyddog i ddod i'n cyfarfod ym mis Chwefror am 7yh i siarad â'r Cyngor am 30 munud.</p> <p>(viii) <u>Swyddog Ymgysylltu â Thenantiaid Cyngor Sir Gâr</u>: penderfynwyd estyn gwahoddiad i gyfarfod mis Mawrth ar 7.00y.h.</p> <p>(ix) <u>Sedd wag ar y Cyngor</u>: mae'r hysbysiadau addas wedi bod ar y we a'r byrddau a neb wedi ymateb. Mae'n briodol nawr fod y system go-optio yn cael ei gweithredu.</p> <p>Anfonwyd nodyn o ddiolch i S. Mason sydd wedi ymdeol o'r Cyngor. Derbyniwyd ymateb yn diolch i'r aelodau, a dymuno'r gorau i'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol.</p>	<p>R. Thomas reported that condensation was visible inside the cabinet of the defibrillator located at Windy Corner Garage.</p> <p>(v) <u>Back up data</u>: advice awaited.</p> <p>(vi) <u>Noticeboards</u>: K. Lewis will repair the two reported previously after erecting the stand for the defibrillator in Dolgran. Clerk wished to note that the condition of the defibrillator located on the wall of the shop at Pencader Square has deteriorated.</p> <p>(vii) <u>Angor Charity</u>: it was confirmed that an officer will be invited to attend our February meeting at 7pm to speak for 30 minutes.</p> <p>(viii) <u>Tenant Engagement Officer (Carmarthenshire County Council)</u>: will be invited to the March meeting at 7pm.</p> <p>(ix) <u>Vacancy for Councillor</u>: it was confirmed that we have completed the correct process for advertising the vacancy. It is now in order for the Council to co-opt.</p> <p>The Clerk had sent S. Mason a word of thanks for her work on the Council (following her resignation). She has responded by thanking members and wishing the Council well for the future.</p>
<p>6. Ariannol:</p> <p>Derbyniwyd a chymeradwywyd y Fantolen Ariannol hyd at 31.12.2024. Cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan A. Davies.</p> <p>Biliau i'w talu: Cyngor Sir Gâr: gosod lanterni: £2,877.30; Dyfed Alarms (cctv Pafiliwn) £43.20; batri (diffibrilydd Milfeddygon Tysul): £190.00; Clerc: costau ffôn o Hydref 10fed hyd 28ain Tachwedd - £14.00; papur datblygu a dividers: £8.37; inc* misoedd Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025: £21.96*.</p> <p>*Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r cwmni sydd yn darparu'r inc, ac maent wedi dweud nad yw'n bosibl talu drwy ddebidd uniongyrchol. Penderfynwyd ymholi ynglyn â chael cerdyn banc i'r Cyngor.</p> <p>Pasiwyd talu'r biliau uchod - cynigiwyd gan A. Davies ac eiliwyd gan W. Cole.</p> <p>Diolchwyd i H. Lewis am baratoi'r fantolen.</p> <p>Mae Cwmni Eryl Jones (Cyfrifydd) Llanybydder wedi cytuno i fod yn Archwiliwyr Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025.</p> <p>Nodwyd bod y taliad Praesept terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025 wedi ei dderbyn ar 10.12.2024.</p>	<p>6. Financial:</p> <p>The Financial Statement up to 31.12.2024 was received and approved. Proposed by D. Davies, seconded by A. Davies</p> <p>Invoices to be paid: Carmarthenshire County Council - replacement lanterns: £2,877.30; Dyfed Alarms - (Pavillion cctv) £43.20; defibrillator battery Tysul Vets: £190.00; Clerc: telephone 10/10 to 28/11: £14.00; paper for photocopier and file dividers: £8.37; printer ink October to January 2025 incl. £21.96*</p> <p>*The Clerk has contacted the company, and they have stated that they will not take payments by Direct Debit. It was agreed to make enquiries regarding provision of a debit card for the Council.</p> <p>It was agreed to pay these bills - proposed by A. Davies, seconded by W. Cole.</p> <p>H. Lewis was thanked for preparing the statement.</p> <p>Eryl Jones (Accountants) Llanybydder have agreed to be the Council's Internal Auditors for the financial year 2024-2025.</p> <p>It was noted that the final Precept payment for the financial year 2024-2025 was received on 10.12.2024.</p>
<p>7. Praesept 2025-2026</p> <p>Cytunwyd gan y Cyngor llawn i dderbyn argymhelliad yr Is-Bwyllgor Cyllid i gadw'r swm yr un peth â'r llynedd, sef £53000. Cynigiwyd gan V. Davies ac eiliwyd gan J. Jones, gyda phawb yn gytun.</p>	<p>7. Precept 2025—2026</p> <p>It was agreed by the full Council to accept the recommendation of the Finance Sub-Committee to keep the precept the same as previous year, £53000. Proposed by V. Davies and seconded by J. Jones, with all members in agreement.</p>

<p>8. Archwiliad 2023-2024 Nodwyd bod Adroddiad yr Ymchwilydd Cyffredinol wedi ei dderbyn ar 27.11.2024. Y barn archwilio y tro hwn oedd "Diamod".</p>	<p>8. Audit 2023-2024 It was noted that the Auditor General's Report had been received on 27.11.2024. The audit opinion on this occasion was "Unqualified".</p>
<p>9.Materion Cynllunio: Roedd y canlynol wedi eu hanfon ymlaen at yr aelodau - dim gwrthwynebiad: (i) Oaklands New Inn (ii) Fferm Cwmcathan, Pencader</p>	<p>9.Planning Matters. The following had been e-mailed to Councillors - no objection: (i) Oaklands New Inn (ii) Cwmcathan Farm, Pencader.</p>
<p>10. Dogfennaeth: (i) Polisiâu Cyflogaeth (ii) Pecyn Cymoth Cyllid a Llywodraethiant Cyflwynwyd a derbyniwyd (ii) uchod. Tynnwyd sylw at y diweddariadau a'r materion oedd angen eu blaenoriaethu yn ystod y flwyddyn nesaf. Cynigiwyd gan V. Davies ac eiliwyd gan A. Davies. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu ag Un Llais Cymru ynglyn â rhai polisiâu cyflogaeth dylid eu cael a bwriedir eu cyflwyno i'r Cyngor wedi iddynt ddod i law. Diolchwyd i M. Griffiths am y gwaith o baratoi a chyflwyno'r ddogfennaeth uchod.</p>	<p>10.Documentation: (i) Employment Policies (ii) Finance & Governance Toolkit Document (ii) above was presented and accepted. Attention was drawn to the recent review as well as matters which would need to be prioritised for the forthcoming year. Proposed by V. Davies and seconded by A. Davies. The Chairman advised that he had consulted with One Voice Wales to request some employment policies which the Council was required to have in place. These will be presented to the Council when received. M. Griffiths was thanked for his work in preparing and presenting the above documents.</p>
<p>11.Swydd y Clerc: Bydd cyfarfod ar Zoom ddydd Iau (23/01/2025) i drafod gofynion y swydd dan arweiniad Paul Egan (Un Llais Cymru). Yn bresennol fydd M. Griffiths, H. Lewis a'r Clerc.</p>	<p>11.Post of Clerk On Thursday (23/01/2025) there will be a Zoom meeting with Paul Egan, One Voice Wales. Also attending will be M. Griffiths, H. Lewis and the Clerk. The discussion will be on Clerk job description.</p>
<p>12. Cyfeiriadau gwefan ac e-bost y Cyngor: Yn dilyn derbyn y ddogfen "Canllawiau Digidol ac Enwi Parthau" a hefyd y ddogfen "Arweiniad Digidol" (14.11.2024), nodwyd yr angen i drafod y cynnwys ymhellach er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion angenrheidiol.</p>	<p>12. Council's website and e-mail addresses: Following receipt of the documents "Digital Guidance Domain Naming" and "Digital Guidance – Good Practice" (14.11.2024), the need to further discuss the contents of both documents was noted to ensure compliance with current requirements.</p>
<p>13. Ceisiadau am Gymorth Ariannol: Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. Nodwyd mai yng Nghyfarfodydd y Cyngor Llawn ym Misoedd Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref y trafodir unrhyw geisiadau, yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi ym Mholisi Cymorth Ariannol y Cyngor.</p>	<p>13. Applications for Financial Assistance: No applications were received. It was noted that all such applications, in accordance with the Council's Financial Assistance Policy, are discussed at Full Council Meetings in January, April, July and October.</p>
<p>14. Gohebiaeth - wedi e-bostio i'r aelodau. (i) Un Llais Cymru: Hyfforddiant - Ionawr a Chwefror 2025 (ii) Cyngor Sir Gâr: (a) Ymgynghoriad ar y Gyllideb. (b) Hawliau Tramwy - dogfen wedi ei derbyn.</p>	<p>14.Correspondence-e mailed to members. (i) One Voice Wales: Training - January and February 2025 (ii) Carmarthenshire County Council: (a) Budget Consultation (b) Rights of Way - document received.</p>

<p>15. Unrhyw Fater arall Cyngorwyr a'r Clerc (gwybodaeth yn unig):</p> <p>A. Davies: (i) angen sylw ar agoriadau carthffos tu allan i Cyfleusterau Pencader ac ar bwys Bee Hive; (ii) pot-hole ar bwys y bont; (iii) top wal Pont Cwmgwen wedi torri; (iv) arwydd ar bwys Ffatri Bwyd y Cŵn wedi troi.</p> <p>V. Davies: (i) Palmant ym Mhontweli o Siop CK i fyny yn llawn sbwriel, cerrig mân a chwyn.</p> <p>D. Davies: (i) cysgodfan bws Wilkes Head yn frwnt, hefyd y sedd ar bwys y cafn blodau ar y Sgwâr; (ii) gofyn am y llinellau melyn arfaethedig - dim newyddion. (iii) mae'r problemau wedi codi eto gyda'r dŵr ar ffordd Penrhiw.</p> <p>W. Cole: (i) agoriadau carthffos yn New Inn heb gael sylw - tu fas i Heddfryn, a gyferbyn â Gwastod.</p> <p>J. Jones: (i) rhwng Drenewydd a'r gyffordd yn Gwyddgrug mae llawer o bridd wedi ei geibio i fyny allan i'r ffordd fawr.</p>	<p>15. Any Other Business - information from Members and Clerk:</p> <p>A. Davies: (i) manholes outside Pencader Conveniences and near Bee Hive require attention; (ii) pothole near the bridge requires attention; (iii) the top of Dolgran Bridge has been damaged; (iv) a road sign near the Glantweli Dog Food Factory is facing in the wrong direction</p> <p>V. Davies: (i) the pavement from CK's to the bypass is in a very poor state with a covering of weeds, chippings and rubbish.</p> <p>D. Davies: (i) the bus shelter at Wilkes Head Square and the bench near the junction need cleaning; (ii) enquired about any progress with the yellow lines on the road around Wilkes' Head; (iii) problem with water running down the road past Penrhiw towards Pontweli.</p> <p>W. Cole: (i) manholes in New Inn require attention - outside Heddfryn and opposite Gwastod.</p> <p>J. Jones: (i) concerned about the state of the road near the junction past Drenewydd – someone has driven into the verge and a considerable amount of soil has been displaced onto the main road.</p>
<p>16. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Lun, 17eg Chwefror am 7.00 y.h.</p>	<p>16. Date of Next Meeting: Monday, 17th February at 7.00 p.m.</p>

Gorfennwyd y Cyfarfod 8.45 y.h. / Meeting ended 8.45 p.m.